

PECYN RECRIWTIO

Cynorthwyydd Marchnata Digidol

Pro rata: £23,800 - £25,000

30 awr cyfwerth r/a: £19,040 - £20,000

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 21ain Awst 2025

Siwmai Hello

Mae'r wybodaeth recriwtio hon mae'r pecyn wedi'i gynllunio i ddarparu gyda manylion am gyfle newydd a chyffrous sydd gennym o fewn datrysiadau ymarfer ar gyfer Cynorthwydd Marchnata Digidol. Bydd y pecyn hefyd yn dweud wrthy ch am y bobl y byddwch yn gweithio gyda nhw, yn ogystal â rhoi cipolwg i chi ar ein sefydliad a'n gwaith.

**Lle
rydym
yn gwneud
gwahaniaeth**

Gofal Cymdeithasol
Gofal Iechyd
Gwasanaethau Cyhoeddus
Sector Gwirfoddol

Ein Sefydliad

Ers dros 20 mlynedd, mae Practice Solutions wedi darparu gwasanaethau ymgynghori, ymgysylltu, a chynnwys digidol pwrpasol, i'r sectorau iechyd a gofal yng Nghymru.

Pobl yw'r peth pwysicaf i ni. Mae ein pobl wrth wraidd ein busnes a'n llwyddiant. Rydym yn tyfu ac yn datblygu'n gyson fel cwmni, i fod y gorau y gallwn, i gynorthwyo sefydliadau a chymunedau i ffynnu.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad Cymreig sydd yn ymgynghoriaeth flaenllaw, seiliedig ar werth, sy'n gweithredu ar draws sectorau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae ein harbenigedd eang yn ategu at ein profiad; o arweinyddiaeth, datblygu sefydliadol a newid trawsffurfiol, i wasanaethau digidol a chreadigol, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu.

Mae ein portffolio gwaith yn dod â ni i gysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth, Sefydliadau'r Trydydd Sector, Cymdeithasau Tai, Byrddau Iechyd Lleol, Llywodraeth Cymru a phob awdurdod lleol yng Nghymru.



Y rôl: Cynorthwydd Marchnata Digidol

 **Oriau Gwaith**
30 awr hyblyg

Eich rôl

Bydd y Cynorthwydd Marchnata Digidol yn cefnogi'r Tîm Strategaeth Busnes i greu, dylunio a chyflenwi deunydd cyfathrebu digidol a chynnwys marchnata diddorol. Nod y rôl hon yw gwella presenoldeb digidol y cwmni a gwella cyfleoedd i ymgysylltu â chwsmeriaid.

Cyfrifoldebau craidd

- Cynorthwyo gyda'r gwaith o ddylunio, creu a dosbarthu deunyddiau marchnata, gan gefnogi cylchlythyrau a chynnwys digidol yn ogystal â diweddaru'r wefan.
- Mynd ati mewn ffordd ragweithiol ac ymatebol i greu cynnwys diddorol ar gyfryngau cymdeithasol ar draws llwyfannau cymdeithasol.
- Cydlynu'r gwaith o gyfathrebu'n allweddol â rhanddeiliaid, yn cynnwys meithrin cysylltiadau, trefnu cyfarfodydd ac anfon gwahoddiadau.
- Rheoli cronfa ddata rhanddeiliaid a Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) gan sicrhau eich bod yn adrodd yn gywir ac yn ei diweddaru.
- Coladu data fel rhan o gylch adrodd misol, a bwydo i mewn i gynlluniau cyfathrebu strategol.

Gweithgareddau'r prosiect – wedi'u diffinio ar sail prosiect i brosiect

- Cynorthwyo gyda'r gwaith o greu deunydd cyfathrebu digidol fel cylchlythyrau, cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, deunyddiau hyrwyddo, a'i ddosbarthu, mewn cydweithrediad â'r tîm cyfathrebu.
- Cefnogi'r gwaith o gasglu data'n rheolaidd, llunio adroddiadau ymgysylltu ac adborth ar gyfer arweinwyr prosiect a systemau adrodd mewnol.
- Cadw cofnod cyfredol o'r holl rhanddeiliaid.
- Cefnogi'r gwaith o reoli digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, i gynnwys logisteg, archebu ac olrhain. Mynychu'r digwyddiadau hyn pan fydd angen.
- Rhoi cymorth gweinyddol gyda meysydd allweddol fel amserlenni, trefnu lleoliadau, a threfniadau teithio.
- Cefnogi ymgyrchoedd y prosiectau drwy roi cymorth gyda chyfryngau cymdeithasol, ysgrifennu copi a gwefannau.
- Cefnogi timau'r prosiect i greu astudiaethau achos ar gyfer y wefan.
- Cefnogi'r gwaith o greu ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol a'u rheoli i sicrhau bod gweithgareddau allweddol yn bwydo i mewn i waith cynllunio canolog yr ymgyrchoedd.

Manyleb person

Sut i wneud cais

Anfonwch e-bost eglurhaol yn amlinellu pam eich bod yn gwneud cais am y rôl a'ch sgiliau a'ch profiad perthnasol, yn ogystal â'ch CV, at recruitment@practicesolutions-ltd.co.uk i wneud cais.



Eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad

- Sgiliau ysgrifennu copi rhagorol (Hanfodol)
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar (Hanfodol)
- Sgiliau sefydliadol cryf a'r gallu i amlwasgio (Hanfodol)
- Gradd baglor mewn marchnata, cyfathrebu neu faes cysylltiedig, neu brofiad proffesiynol cywerth (Hanfodol)
- Golygu gwefan a phrofiad gyda CMS yn ddelfrydol Wordpress (Hanfodol)
- Hyfedredd mewn Microsoft Office a llwyfannau cyfathrebu digidol (Hanfodol)
- Y gallu i weithio'n annibynnol a chydweithio â llawer o rhanddeiliaid (Hanfodol)
- Angerdd am greadigrwydd wrth fynd ati i gyfathrebu (Hanfodol)
- Profiad gyda meddalwedd dylunio graffig (ee Adobe Creative Suite, Canva) (Dymunol)
- Cyfarwydd â systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a llwyfannau marchnata drwy e-bost (Dymunol)
- Gwybodaeth am Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) a dadansoddi gwe (Dymunol)
- Profiad o gymorth gweinyddol (Dymunol)
- Sgiliau Cyfathrebu Iaith Gymraeg (Dymunol)



Nid yw hon yn rhestr lawn a gall eich Rheolwr Llinell ei hamrywio o bryd i'w gilydd.

Weithiau, nid y rhai sydd â'r holl gymwysterau ond y rhai sydd â'r angerdd i ddysgu, sy'n gwneud yr ymgeisydd cywir.

Pecyn **buddion**



Cyflog

Cyflog rhan amser
£19,040 - £20,000

Cyflog cyfwerth ag amser llawn
£23,800 - £25,000



Oriau gwaith

30 awr yr wythnos patrwm
gweithio hyblyg ar gael

Bydd hyn yn cael ei adolygu
ymhen chwe mis.



Cytundeb

Parhaol



Lleoliad

Ty Antur, Navigation Parc, Abercynon

Rydym yn gweithio mewn model hybrid, sy'n
cynnwys gweithio yn y swyddfa ac o gartref

Rydym yn fodlon ystyried gweithio o bell
[o fewn pellter rhesymol] ar gyfer yr
ymgeisydd cywir



Yn atebol i

Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Cyfnod prawf

Bydd y chwe mis cyntaf o gyflogaeth
yn gyfnod prawf



Hawl i wyliau

Hawl llawn amser yw 28 diwrnod gan
gynnwys gwyliau banc. Bydd rhan amser
cyfwerth yn cael ei gyfrifo pro rata



Gwyliau ychwanegol

Rhoddir tri diwrnod ychwanegol o wyliau
yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Byddwch yn cael diwrnod ychwanegol
o wyliau ar gyfer eich pen-blwydd bob
blwyddyn

Pecyn **buddion**



Absenoldeb Gwirfoddol

Un diwrnod o wirfoddoli â thâl yn y gymuned bob blwyddyn




Tâl Salwch Cwmni

Mae Tâl Salwch Cwmni yn cael ei gynnis yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth



Pensiwn

Rydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Cofrestru Awtomatig ar gyfer pensiwn – cyfraniad o 3% gan y Cyflogwr a 5% gan y Gweithwyr



Polisiau Gweithio Hyblyg

Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth o polisiau gweithio hyblyg



Datblygu Perfformiad

Rydym yn darparu cefnogaeth barhaus a chyfleoedd datblygu trwy amrywiaeth o gyfleoedd



Teithio

Mae cyfleusterau parcio am ddim ar gael yn union y tu allan i'r swyddfa.
Mae gorsaf drenau Abercynon pum munud i ffwrdd o'r swyddfa ar droed

Gwireddu – Ein cyfrifoldebau ar y cyd

Mae Practice Solutions wedi bod yn rhan o'r teulu gofal cymdeithasol er 1999. Ei nod yw cefnogi, hyrwyddo ac arwain gwelliannau ac arloesi yn y sector er mwyn cael effaith gadarnhaol ar les ein holl gymunedau.

Gyda'n gilydd gallwn wneud mwy, a thrwy 'uno dotiau' ein gwaith yn fewnol, gallwn gael mwy o effaith allanol. Bydd rhannu ein gwybodaeth a gweithio ar draws ein holl gontractau allweddol yn sicrhau y bydd mwy o effaith ar y canlyniadau yr ydym yn gallu eu cyflawni ar y cyd. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Greu, cynnal ac adeiladu perthnasoedd
- Bod yn weladwy ac yn berthnasol ar wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon allweddol ein sefydliad
- Canfod cyfleoedd posibl i rwydweithio / datblygu busnes er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chynyddu cyrhaeddiad ein marchnad
- Gweithio oriau hyblyg yn ogystal â chydweithio i gyflawni ein canlyniad ar y cyd



Ein Cenhadaeth

Cenhadaeth Practice Solutions yw helpu pobl i fyw bywydau mwy ystyrlon trwy gysylltu pobl, meithrin arloesedd a datgloi potensial

Ein Gweledigaeth

Rydym yn uno'r dotiau i wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng sefydliadau ac unigolion, trwy weithio fel partneriaid dibynadwy i helpu i sbarduno newid effeithiol, gan bwysleisio gwerth dynol trwy roi llais y dinesydd wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein Diwylliant

Fel cwmni sydd wedi'i leoli yng Nghymru, rydym yn ceisio cefnogi a hyrwyddo siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar unrhyw lefel. Rydym yn dîm ymroddedig, gweithgar a chynhwysol. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a byddem wrth ein bodd yn clywed gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd, gan gynnwys y rheini o grwpiau Du, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd, a phobl sy'n LHDTCA+.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn datblygu atebion pwrpasol sy'n cyflawni newid ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob prosiect. Waeth pa mor fawr neu fach yw'r sefydliad, a beth bynnag yw ei anghenion penodol, mae ein gwerthoedd craidd ar flaen ein meddyliau o'r dechrau i'r diwedd, wrth i ni fynd ati i ymdrin â phob prosiect.



Cysylltiedig



Chwilyfrydig



Dibynadwy



Dynol



Beiddgar

Adeiladu a chynnal perthnasoedd ac ymddiriedaeth yw asgwrn cefn yr hyn rydyn ni'n ei wneud, felly ni fydd ein cyfranogiad yn dod i ben fydd prosiect wedi'i gwblhau.

Cysylltiedig

Gweithio gydag eraill i uno'r dotiau rhwng datrys problemau, canfod atebion arloesol a'r unigolion sy'n gallu sbarduno newid.

Chwilyfrydig

Mynd ati i weithredu gyda diddordeb gwirioneddol mewn pobl eraill a'u cyfraniad; holi cwestiynau ystyriol i gael dealltwriaeth ddyfnach, ceisio profiadau newydd ac archwilio safbwyntiau newydd.

Dibynadwy

Gweithredu gydag uniondeb a thryloywder o ran y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd a gydag eraill, i barhau i gyflawni ein hymrwymyiadau.

Dynol

Creu diwylliant o garedigrwydd a chynhwysiant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u gwerthfawrogi, mewn awyrgylch creadigol sy'n ffynnu ar empathi, dealltwriaeth a llwyddiant ar y cyd.

Beiddgar

Bod yn hyderus ac yn ddewr yn y ffordd rydyn ni'n arwain, gan gofleidio newid, peidio â chilio rhag her barchus a dathlu pan fydd pawb yn elwa.

Ydy hyn yn swnio'n ddiddorol?

Gwybodaeth am Wneud Cais i'r Ymgeisydd:

Os yw'r rôl hon wir o ddiddordeb i chi, anfonwch CV a llythyr eglurhaol atom. Mi fydd yn bwysig i chi nodi enghreifftiau / tystiolaeth o'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni'r rôl hon yn llwyddiannus.

Dyddiad cau

Y dyddiad cau i wneud cais am y rôl hon yw 9am, dydd Iau 21 Awst.

Anfonwch eich cais wedi'i gwblhau i recruitment@practicesolutions-ltd.co.uk

Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gallwn gynnig cyfweliadau rhithwir yn dibynnu ar eich sefyllfa bersonol.

Ymgeiswyr ag anableddau

Os oes gennych anabledd, yr hoffech i ni ei ystyried, dywedwch wrthym am hyn pan fyddwch yn gwneud cais. Rhwng wybod i ni os gallwn helpu a chofiwch y gallwch ofyn am wybodaeth mewn print bras neu mewn fformat gwahanol.





Ymholiadau Cyffredinol

E: contact@practicesolutions-ltd.co.uk

F: 01443 742384

www.practice-solutions.co.uk

